DAVIES, HUMPHREY (neu WMFFRE DAFIS (bu farw 1635), ficer Darywain, a chopïydd llawysgrifau Cymraeg

Enw: Humphrey Davies
Dyddiad marw: 1635
Priod: Sioned Davies (née Stanley)
Rhiant: Sioned ferch David ap Thomas
Rhiant: Dafydd ap Gruffudd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ficer Darywain, a chopïydd llawysgrifau Cymraeg
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Evan David Jones

Mab Dafydd ap Gruffudd o gyffiniau Harlech. Dywedir iddo fod yn rheithor Llanfyllin am rai misoedd yn 1571, ac iddo fyned oddi yno i astudio yng Nghaergrawnt. Ymddengys i'w yrfa yno gael ei chymysgu ag eiddo gwr o'r un enw o Leamington Hastings yn y llyfrau ar raddedigion Caergrawnt. A barnu oddi wrth ddistawrwydd y beirdd ar y pwnc, ni chymerth radd yno. Bu'n ficer Darywain o 1577 hyd ei farw yn 1635. Copïodd nifer o lawysgrifau barddoniaeth Gymraeg, ac erys o leiaf chwech ohonynt, sef Gwyneddon 1, Llanstephan 35 a 118, Mostyn 160, Bodewryd MS 1D , a Brogyntyn 2. Copïodd yr olaf hwn i'r Dr. Theodore Price, is-ddeon Westminster, a nai i'w wraig, Sioned ferch Edward Stanley, cwnstabl castell Harlech yn 1551. Canwyd cywyddau iddo gan Ruffudd, Richard, a Sion Philip, Ieuan Tew Brydydd o Arwystl, ac Evan Lloyd o Waun Einion. Dywed Richard a Sion Philip iddo yn ieuanc gyfieithu llyfrau estron i'r Gymraeg.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

A Survey of the Cathedral-Church of St. Asaph (1720), i, 384

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), ii, 234

Athenae Cantabrigienses (1858â€“1913), ii, 474

Alumni Cantabrigienses

N.L.W. Church in Wales Rec., St Asaph

Reg. Collat.

Gweithiau

Archifau LIGC: Brogyntyn MS I.2: Barddoniaeth, 1599

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733212

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, E. D., (1953). DAVIES, HUMPHREY (neu WMFFRE DAFIS (bu farw 1635), ficer Darywain, a chopïydd llawysgrifau Cymraeg. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 3 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-HUM-1635

Copïo'r cliplwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government